Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

23 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022. Mae'r Offeryn Statudol a nodir uchod yn mynd i'r afael â mân ddiffygion yn ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, diffygion pellach na ragwelwyd ar adeg ymadael â'r UE, ac yn sicrhau gweithrediad cyfundrefn fewnforio ledled Prydain Fawr. Mae hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964.

Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu ddrafft o offeryn statudol, y mae Gweinidogion y DU yn ei osod gerbron Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â diwygio deddfwriaeth sylfaenol Cymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae'r diwygiadau i Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 yn bodloni'r meini prawf hyn a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar 21 Tachwedd. Rwy'n diolch i'r Pwyllgor am ddeall y rheswm dros yr oedi cyn cyflwyno'r memorandwm ac am ystyried y Rheoliadau hyn a darparu ei adroddiad mewn amserlen fyrrach na sy'n cael ei darparu fel arfer. Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn fodlon â sylwedd y Memorandwm.

Ymateb i Argymhelliad y Pwyllgor

Argymhelliad 1: Argymhellodd y Pwyllgor:

Y dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 i geisio cydsyniad y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol yn Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb: Gwrthod

Yn fy marn i nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newydd nac yn ddadleuol. Felly, ni chyflwynais gynnig ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn unol â'r sefyllfa a nodir yn llythyr y Prif Weinidog o fis Tachwedd 2020, ac i gydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 30A. Yn ogystal â hyn, gwnaed y Rheoliadau ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 13 Rhagfyr a daethant i rym ar yr un dyddiad.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod pryderon y Pwyllgor o ran y prosesau hyn, ac rwy'n nodi'n benodol yr ohebiaeth ddiweddar gan y Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ynghylch Rheol Sefydlog 30A. Byddwn yn falch o ymgysylltu ymhellach ar unrhyw eglurhad neu adolygiad o'r fath o ran Rheol Sefydlog 30A.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd